

Rhif: WG38819



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru


Hydref 2019

Cyflwyniad

1. Ers i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 gael ei phasio, mae Cadw wedi bod wrthi'n gweithredu pecyn integredig o is-ddeddfwriaeth, o bolisiau a dogfennau cyngor cynllunio newydd a diwygiedig, a chanllawiau ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae'r rhain, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus yn unol â'r egwyddorion cyfredol ym maes cadwraeth.
2. Cafodd *Goresgyn y Rhwystrau*, canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar wella mynediad i adeiladau rhestredig yng Nghymru, eu cyhoeddi yn 2002. Er bod yr egwyddorion sylfaenol yn parhau'n ddilys, mae angen diweddarau'r ddogfen er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth.
3. Rhwng 25 Ebrill a 19 Gorffennaf 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad am gyfnod o ddeuddeg wythnos ar ganllawiau newydd ar arferion gorau — *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* — a ddrafftiodd er mwyn esbonio sut i gynllunio ac i wella mynediad i adeiladau rhestredig yng Nghymru.
4. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we, lle'r oedd y ddogfen ganllawiau ar gael i'w lawrlwytho. Roedd y ffurflen ymateb ar gael i'w llenwi ar-lein a hefyd ar ffurf ddogfen Word i'w lawrlwytho.
5. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad mewn nifer o ffyrdd. Cyfeiriwyd ato ar wefan a ffrwd Twitter Cadw ac ar ei dudalen ar Facebook. Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad yng nghyhoeddiad Cadw, 'Y Newyddion Diweddaraf am yr Amgylchedd Hanesyddol', a gafodd ei ddsbarthu i ryw 350 o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd oedd â diddordeb. Anfonwyd nodyn atgoffa atynt drwy'r e-bost hefyd. Fe'i hyrwyddwyd hefyd ar ffrwd Twitter Llywodraeth Cymru.

Yr ymatebion

6. Daeth 48 o ymatebion o sylwedd i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 1. Nid ydym wedi cynnwys y manylion os cafwyd cais gan unigolion i fod yn ddienw.
7. Cafodd deg ar hugain o ymatebion eu hanfon o gyfeiriadau yng Nghymru. Er bod y gweddill yn dod o'r tu allan i Gymru neu o gyfeiriadau nas datgelwyd, daeth y rhan fwyaf ohonynt oddi wrth bobl neu gyrff oedd â chysylltiad neu ddiddordeb uniongyrchol mewn adeiladau rhestredig ac mewn gwella mynediad iddynt.
8. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu categoreiddio yn Ffigur 1.



Ffigur 1. Ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl categori

C1.

A ydych yn cytuno bod adran 3 o'r canllawiau yn egluro'n glir sut y gellir defnyddio cynllun mynediad i ystyried mynediad hawdd i bawb ond gan ddiogelu diddordeb arbennig ac anghenion cadwraeth adeilad rhestredig ar yr un pryd?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	6	7	6	44
57%	14%	16%	14%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

- Roedd y rhan fwyaf o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw yn cytuno bod adran 3 o'r canllawiau yn egluro'n glir sut y gellir defnyddio cynllun mynediad i ystyried mynediad hawdd i bawb ond gan ddiogelu diddordeb arbennig ac anghenion cadwraeth adeilad rhestredig ar yr un pryd. Er hynny, gwnaed nifer o sylwadau defnyddiol a manwl ar sut i wella'r canllawiau.
- Er bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd, nododd un o'r ymgynghoreion ychydig o fannau lle'r oedd angen ailedrych ar

iaith y canllawiau; er enghraifft, cyfeiriai'r canllawiau at bobl ag anabledau dysgu yn hytrach na namau gwybyddol.

11. Eglurodd un o'r ymgynghoreion fod pob unigolyn yn wynebu rhwystrau gwahanol a bod angen ystyried mynediad mewn ffordd holistaidd. Awgrymwyd y dylai'r archwiliad mynediad gynnwys yr holl rhwystrau posibl, hyd yn oed os nad oedd modd mynd i'r afael â nhw, oherwydd y gellid defnyddio'r ddogfen yn dystiolaeth bod y rhwystrau hynny wedi cael eu hystyried ac y gallai hefyd fod yn sail i ateb gwahanol yn y dyfodol. Roedd yr holl ymgynghoreion yn cytuno ar bwysigrwydd cynnwys amrywiaeth eang o bobl anabl yn ystod pob cam o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun, a hynny er mwyn deall y rhwystrau a'u hanghenion ac er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl opsiynau mynediad yn cael eu hystyried. Er hynny, awgrymodd un o'r ymgynghoreion y dylai'r canllawiau bwysleisio'r angen, wrth gynnwys pobl anabl yn y broses, a thrafod gyda nhw, i'w trin fel pobl sydd â rhan gyfartal yn y broses yn hytrach na'u trin fel ymgynghoreion yn unig.
12. Esboniwyd mewn un ymateb fod addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yr un mor gymwys i gymhorthion neu gymorth ategol, megis dolenni clywed, cymhorthion cyfathrebu, gwybodaeth sain a chymorth a chymhorthion eraill, ag ydynt i unrhyw ddarpariaethau, meini prawf neu arferion sy'n rhoi pobl anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Y teimlad oedd ei bod yn bwysig cynnwys yr elfennau hyn yn y canllawiau ac y dylid hefyd ailedrych arnynt o ran rhwystrau sy'n atal mynediad.
13. Gofynnodd nifer o'r ymgynghoreion i'r canllawiau roi rhagor o bwyslais ar ba mor bwysig yw rolau swyddogion mynediad a chadwraeth yr awdurdodau lleol i ran cynnig cyngor a gwybodaeth.
14. Awgrymodd sefydliadau a oedd yn cynrychioli enwadau crefyddol y gellid gwella'r canllawiau drwy gynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ar gyfer sefydliadau crefyddol a thrwy gyfeirio'n benodol at yr esemptiad eglwysig. Nodwyd bod prosiectau mawr yn cael eu cynnal i aildrefnu cynllun eglwysig er mwyn creu manau mwy hyblyg, a bod y prosiectau aildrefnu hynny'n gyfle i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â hygyrchedd.
15. Gofynnodd rhai o'r ymgynghoreion am ragor o ganllawiau ar ddiffinio 'newid rhesymol', gan awgrymu y gallai'r astudiaethau achos arfaethedig helpu yn hynny o beth drwy roi cyd-destun. Awgrymwyd hefyd y gallai'r adran ar Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth a'r cysylltiad rhwng yr adran honno ac asesiadau cadwraeth fod yn fwy clir. Darparodd un o'r ymgynghoreion siart lif wahanol ar sut i lunio cynllun mynediad.
16. Cafwyd awgrymiadau mewn rhai o'r ymatebion am ragor o ganllawiau a chynghor y gellid cyfeirio atynt yn y ddogfen. Roeddent hefyd yn pwysleisio y dylai cadw at y Safonau Prydeinig fod yn ofynnol yn hytrach nag yn 'arferion gorau'.
17. Eglurodd un sefydliad, a oedd yn cynrychioli pobl hŷn, ei bod yn hanfodol, wrth ystyried mynediad i adeiladau rhestredig, bod yr amgylchedd adeiledig yn galluogi pobl hŷn i chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau, yn hytrach na'i

fod yn eu hatal rhag gwneud hynny. Roeddent yn croesawu'r cynigion a oedd yn dweud y dylid ystyried anghenion pobl hŷn wrth gynnal archwiliadau mynediad ac wrth lunio cynlluniau mynediad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

18. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod adran 3 yn glir ac yn ddefnyddiol, ond mae hefyd yn ddiolchgar am y sylwadau manwl ac adeiladol a gynigiwyd ar sut i'w gwella.
19. Rydym wedi diwygio'r testun i egluro bod y canllawiau hyn yn rhoi pwyslais ar addasiadau ffisegol i adeiladau rhestredig. Rydym wedi mynd hefyd i ailedrych ar yr iaith a ddefnyddir drwyddi fel ei bod yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd. Er i nifer o'r ymatebwyr awgrymu y dylid mynd i'r afael â mathau eraill o fynediad, nid yw'r rheini o fewn cwrpas y ddogfen ganllawiau hon.
20. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddogfen eisoes yn pwysleisio'r rôl sydd gan swyddogion mynediad a chadwraeth yr awdurdodau lleol o ran cynnig cyngor arbenigol ar fynediad i adeiladau rhestredig. Diwygiwyd y canllawiau er mwyn pwysleisio'r angen i gynnwys pobl anabl yn ystod pob cam o'r gwaith o ddatblygu cynllun mynediad.
21. Ychwanegwyd cyfeiriadau penodol at fannau addoli ac at eu systemau cyngor er mwyn egluro rôl enwadau crefyddol sydd ag esemptiad eglwysig.
22. Ni ddiwygiwyd y testun er mwyn nodi a rhoi enghreifftiau o 'addasiadau rhesymol'. Er hynny, bydd yr enghreifftiau o arferion da wrth ddarparu mynediad hawdd yn helpu darllenwyr i ddeall yr hyn a olygir wrth 'addasiadau rhesymol'. Mae'r canllawiau'n rhoi pwyslais ar y broses sy'n caniatáu i bobl ddeall yr hyn a olygir wrth addasiadau rhesymol yn hytrach na darparu rhestr o opsiynau posibl.
23. Pan oedd hynny'n briodol, diwygiwyd y testun i egluro pryd mae safonau'n ofynion sylfaenol, a hefyd i annog pobl i ragori ar y safonau gofynnol hynny er mwyn mabwysiadu'r arferion gorau. Ychwanegwyd cyfeiriadau at gyngor, canllawiau a sefydliadau perthnasol eraill er mwyn tynnu sylw at ffynonellau eraill o wybodaeth.
24. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn ddogfen ganllawiau'n mynd i'r afael yn ddigonol ag asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth. Mae Cadw eisoes wedi cyhoeddi *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, a dylid darllen y canllawiau hynny ar y cyd â *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*. Er hynny, diwygiwyd y canllawiau er mwyn esbonio'r berthynas rhwng yr 'asesiad cadwraeth' a'r 'asesiad o'r effaith ar dreftadaeth'. Yn ogystal, newidiwyd y derminoleg a ddefnyddir, gan gyfeirio erbyn hyn at 'asesiad o arwyddocâd' yn hytrach nag at 'asesiad treftadaeth', gan gydnabod y dryswch a achoswyd gan y derminoleg. Diwygiwyd y siart liff ar lunio cynllun mynediad er mwyn cynnwys yr awgrymiadau a wnaed gan yr ymgynghoreion.

C2.	A ydych yn cytuno y bydd y canllawiau yn helpu darparwyr gwasanaethau i gyflawni eu rhwymedigaethau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl?
------------	---

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
27	5	5	7	44
61%	11%	11%	16%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

- 25. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion yn cytuno y byddai'r canllawiau'n helpu darparwyr gwasanaethau i gyflawni eu rhwymedigaethau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl. Roedd nifer yn croesawu'r canllawiau ac o'r farn y byddent yn ddefnyddiol wrth ystyried sut i reoli gwell mynediad i adeiladau rhestredig.
- 26. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y gallai'r canllawiau a'r dyheadau o ran polisi arwain at well amgylchedd ar gyfer cyflwyno prosiectau a chyflwyno newid, ond yn y pen draw, mai'r adnoddau a fyddai ar gael, a pharodrwydd i wneud penderfyniadau mwy arloesol, fyddai'n penderfynu ar y math o newid, ac ar ba mor gyflym y byddai'r newid hwnnw'n digwydd. Cydnabuwyd y byddai astudiaethau achos ac enghreifftiau yn helpu i egluro pwyntiau allweddol.
- 27. Awgrymodd dau sefydliad y gallai adran 1 nodi'n fwy clir y mathau o sefydliadau y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys iddynt, h.y. bod y Ddeddf yn gymwys yn benodol i grwpiau gwirfoddol fel cynghorau eglwysi neu ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladau lleol.
- 28. Roedd dau sefydliad yn croesawu'r cyfeiriad at yr esemptiad eglwysig, ond yn awgrymu y dylai'r canllawiau ei gwneud yn fwy clir bod yr ystyriaethau eraill o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn y canllawiau yn berthnasol i adeiladau crefyddol esempt, er efallai fod gweithdrefnau cydsynio gwahanol yn gymwys mewn achosion o'r fath.
- 29. Dywedwyd mewn ymateb gan gynrychiolwyr swyddogion cadwraeth yr awdurdodau lleol ei bod yn bwysig i'r ddogfen gydnabod bod yn rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gwella adeilad rhestredig, a diogelu'r amgylchedd hanesyddol – nid yw hwnnw'n adnodd di-hysbydd. Awgrymwyd hefyd y gallai'r ddogfen fanylu mwy ar sut y dylai'r bobl hynny sydd mewn swyddi cadwraeth/cynllunio benderfynu a fyddai digon o gyfiawnhad wedi'i roi ar gyfer unrhyw waith; byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnwys enghreifftiau lle na fyddai digon o gyfiawnhad wedi'i roi dros wneud unrhyw waith penodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

30. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld bod y canllawiau wedi cael croeso ac y byddant yn adnodd defnyddiol wrth ystyried sut i fynd ati i reoli gwell mynediad i adeiladau rhestredig.
31. Diwygiwyd y testun er mwyn egluro bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys i sefydliadau eraill, megis grwpiau gwirfoddol a chynghorau eglwysi. Fe'i diwygiwyd hefyd er mwyn pwysleisio bod ystyriaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r canllawiau yn gymwys i enwadau sy'n gwneud gwaith ar adeiladau rhestredig o dan yr esemptiad eglwysig.
32. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddogfen ganllawiau'n rhoi digon o esboniad am sut i ddal y ddysgl yn wastad rhwng gwella mynediad i adeiladau rhestredig a pheidio â gwneud niwed i ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol yr adeilad, a bod y canllawiau'n amlinellu sut i wneud hynny'n effeithiol.

C3.

A ydych yn cytuno bod adran 4 yn ymdrin â'r atebion mwyaf cyffredin ar gyfer gwella mynediad ac yn cyfeirio'n ddigonol at y canllawiau manwl sydd ar gael o ffynonellau eraill?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	9	5	1	40
62%	22%	13%	3%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

33. At ei gilydd, roedd yr ymgynghoreion yn cytuno bod adran 4 yn ymdrin â'r atebion mwyaf cyffredin ar gyfer gwella mynediad i adeiladau rhestredig ac yn cynnwys digon o gyfeiriadau at y canllawiau manwl sydd ar gael o ffynonellau eraill.
34. Cafodd awgrymiadau defnyddiol eu gwneud ganddynt am ragor o atebion cyffredin y gellid eu cynnwys yn y canllawiau. Roedd ychydig ohonynt yn cynnig y dylid mabwysiadu dull mwy holistaidd o weithredu, oherwydd y gellid ystyried bod gan rwystrau agweddau ffisegol, synhwyraidd, gwybyddol a diwylliannol. Hefyd, dylai adran 4 gynnwys enghreifftiau o atebion creadigol ac arloesol i'r rhwystrau hynny, gan fod y ddogfen bresennol yn canolbwyntio ar addasu adeiladau mewn ffyrdd traddodiadol. Nodwyd y dylai'r canllawiau adlewyrchu'r ffaith y gallai fod angen sawl opsiwn mewn rhai sefyllfaoedd er mwyn diwallu anghenion mynediad pobl anabl.
35. Tynnwyd sylw hefyd at ba mor bwysig yw cynnwys amrywiaeth o bobl anabl wrth fynd ati i ddod o hyd i'r ateb. Dylent gael mynegi barn a chyflwyno sylwadau am arwyddion, am ddarparu gwybodaeth, dehongli, dod o hyd i'r ffordd o amgylch safle, a symud o'i amgylch.

36. Dywedodd ychydig o'r ymgynghoreion ei bod yn bwysig pwysleisio mai cyflwyniad i ystyriaethau sy'n ymwneud â mynediad yw'r canllawiau, ac y dylid cyfeirio at ganllawiau, cyngor a rheoliadau manwl eraill ym mhob sefyllfa. Gwnaed ambell awgrym am y canllawiau ychwanegol a oedd ar gael ac am sut y gellid cyfeirio pobl atynt.
37. Roedd nifer o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau neu wybodaeth ychwanegol am rai o'r atebion cyffredin a nodwyd, er enghraifft, ar raddiant, lifftiau, parcio, rheiliau canllaw, goleuo, dolenni sain, grisiau a sribynnau cyferbynnu.
38. Mater arall y tynnwyd sylw ato gan un o'r ymgynghoreion oedd yr angen am hyfforddiant priodol ar gyfer pawb sy'n ymwneud â dylunio, datblygu, adeiladu, a chynnal a chadw ac atgyweirio unrhyw fathau o atebion sy'n caniatáu mynediad i adeiladau hanesyddol.
39. Roedd nifer o'r ymgynghoreion yn cytuno y byddai lluniau ac enghreifftiau'n gwella'r adran hon. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael enghreifftiau o atebion ar gyfer adeiladau mewn ardaloedd mwy gwledig, er enghraifft, bythynnod bach neu ffermydd. Yn aml, mae adeiladau o'r fath yn rhai syml a phlaen o ran eu dyluniad, a gall fod yn anodd eu haddasu a datblygu atebion heb effeithio ar eu cymeriad a'u harwyddocâd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

40. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n ymdrin â'r atebion mwyaf cyffredin ar gyfer gwella mynediad i adeiladau rhestredig ac mae'n ddiolchgar am yr awgrymiadau ar ychwanegiadau defnyddiol.
41. Er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno nad dim ond rhwystrau ffisegol sy'n wynebu pobl anabl, mae pwyslais y canllawiau hyn ar addasiadau ffisegol ac nid yw mathau eraill o atebion mynediad o fewn cwrmpas yr ymgynghoriad hwn. Er hynny, mae'r canllawiau'n cyfeirio'r darllenwyr at ganllawiau eraill sydd ar gael a allai fod yn ddefnyddiol wrth ystyried atebion o ran mynediad.
42. Diwygiwyd y canllawiau er mwyn pwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys pobl anabl yn ystod pob cam o'r gwaith ar unrhyw brosiect. Mae'r canllawiau'n pwysleisio unwaith eto y dylid ceisio cyngor arbenigol ar ystyriaethau sy'n ymwneud â mynediad a chyfeirio'r darllenwyr at sefydliadau a fydd yn gallu helpu yn hynny o beth. Mae'n canllawiau hefyd yn nodi'n glir y bydd cynnal trafodaethau gyda'r awdurdodau perthnasol cyn mynd ati i gyflwyno cais yn fodd i gael rhagor o wybodaeth am yr atebion a fydd wedi'u nodi.
43. Wrth ddarparu enghreifftiau yn y canllawiau, byddwn yn ceisio defnyddio gwahanol fathau o adeiladau rhestredig. Roedd annog yr ymgynghoreion i roi enghreifftiau o arferion da yn rhan o'r ymarfer ymgynghori (Cwestiwn 4).

C4.

Awgrymwch enghreifftiau o arfer da wrth wella mynediad mewn adeiladau rhestredig yng Nghymru y gellid eu defnyddio o fewn *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru.*

44. Rhoddodd pedwar ar ddeg o'r ymgynghoreion enghreifftiau o arferion da wrth wella mynediad i adeiladau rhestredig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

45. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd enghreifftiau o arferion da wrth wella mynediad i adeiladau rhestredig. Byddwn yn mynd ar drywydd yr enghreifftiau hynny gyda'r bwriad o gynnwys rhai ohonynt yn y ddogfen ganllawiau, *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru.*

C5.

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Crynodeb o'r Dadansoddiad

46. Cyflwynodd un ar hugain o'r ymatebwyr sylwadau o sylwedd am effeithiau'r canllawiau ar y Gymraeg. Dywedodd saith ohonynt y dylai'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog ac y dylai'r Gymraeg fod i'w gweld yn gyntaf. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai arwyddion fod mor glir a chryno ag y bo modd er mwyn lleihau cymhlethod a nifer yr arwyddion y byddai eu hangen. Mynegodd eraill bryder y gallai arwyddion dwyieithog fod mor fawr fel y byddent yn effeithio ar integriti hanesyddol adeiladau. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai pictogramau a symbolau cydnabyddedig helpu i liniaru hynny.
47. Gwnaed awgrymiadau eraill ynglŷn â hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan ddefnyddio dulliau hawdd eu defnyddio fel technoleg ddigidol. Nododd ymatebydd arall y gallai ymwelwyr deimlo'n fwy cyfforddus yn trafod materion sy'n ymwneud â mynediad yn Gymraeg ac y dylai staff sy'n siarad Cymraeg fod ar gael i ddiwallu'r angen hwnnw. Teimlai dau o'r grwpiau crefyddol y bydd rhagor o gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg wrth i ragor o weithgareddau gael eu cynnal mewn eglwysi yn gyffredinol. Teimlai dau o'r ymatebwyr y byddai defnyddio'r Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n dysgu Cymraeg ac yn gwella gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
48. Dywedodd un ymatebydd y dylid ystyried darparu arwyddion digonol ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg.
49. Dywedodd tri o'r ymatebwyr eu bod o'r farn na fyddai unrhyw effaith o gwbl neu dim ond ychydig iawn o effaith. Dywedodd un nad oedd ganddo'r arbenigedd i wneud sylw am y mater.

Ymateb Llywodraeth Cymru

50. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
51. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bobl sefydliad cyhoeddus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn materion sy'n gysylltiedig ag arwyddion a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
52. Mae'r canllawiau eisoes yn ystyried y defnydd o arwyddion digonol ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg.

C6.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, a fyddech cystal â'u nodi yma.

Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol

53. Cyflwynodd saith ar hugain o'r ymatebwyr sylwadau o sylwedd am amrywiaeth o faterion cysylltiedig eraill. Mae'r rheini sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiynau cynharach wedi cael eu hystyried wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r cwestiynau hynny. Roedd wyth o'r rheini'n gadarnhaol iawn am gyhoeddi'r canllawiau ac yn cefnogi'r egwyddor o wneud adeiladau rhestredig yn fwy hygyrch. Ychwanegodd un y byddai'r canllawiau'n adnodd gwerthfawr.
54. Roedd un ymatebydd yn beirniadu'r ffaith nad oedd yr ymgynghoriad ar gael mewn fformatau hygyrch eraill ac yn siomedig bod y ddogfen, ar brydiau, yn adlewyrchu'r model meddygol o anabledd yn hytrach na'r un cymdeithasol. Er hynny, roedd ymatebydd arall yn canmol y canllawiau am wneud y model cymdeithasol o anabledd yn rhan annatod o'r canllawiau o'r cychwyn cyntaf.
55. Er eu bod yn cytuno â'r egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau, roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylent fynd i'r afael â materion eraill megis namau ar y synhwyrâu neu namau gwybyddol. Tynnwyd sylw hefyd at ddefnydd o laith Arwyddion Prydain a'r angen i ddeall anghenion y bobl hynny sy'n ei defnyddio. Ychwanegodd un ymatebydd ei bod yn bwysig deall yr hyn y mae ymwelwyr am ei ddarganfod a'r ffordd y maent am ei brofi. Roedd dau o'r ymatebwyr o'r farn bod toiledau hygyrch yn ystyriaeth bwysig.
56. Roedd dau o'r ymatebwyr yn derbyn bod adeiladau hanesyddol yn gallu bod yn anodd eu haddasu ac y gallai hynny arwain at faich ariannol mawr. Fodd bynnag, dywedodd un arall y dylid dal y ddysgl yn wastad rhwng yr agwedd hon ar hygyrchedd ac agweddau eraill arno na fyddant, o reidrwydd, yn arwain at newidiadau strwythurol i adeilad. Nododd ymgynghorai eraill nad oedd angen i'r ffordd y codwyd adeiladau yn y gorffennol bennu sut y dylid mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â hygyrchedd y dyddiau hyn. Teimlai un ymatebydd

fod y canllawiau'n hoelio gormod o sylw ar gydymffurfio â gofynion cyfreithiol yn hytrach na hyrwyddo'r arferion gorau.

57. Roedd tri ymatebydd yn credu y gallai'r canllawiau fod yn gliriach am eu cynulleidfa darged, a gofynnwyd hefyd a ellid eu hestyn i ymdrin â phob adeilad hanesyddol. Teimlai eraill nad oedd yn glir mai at adeiladau cyhoeddus yr oedd y canllawiau wedi'u hanelu. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai perchenogion unigol gael rheoli eu hadeiladau fel y gwelant orau.
58. Dywedodd un ymatebydd y dylai'r ddogfen fod yn gwbl glir am rwymedigaethau Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai ymgynghori â phlant a phobl ifanc fod yn ddisgwyliad cyffredinol oherwydd bod eu safbwyntiau a'u hawliau nhw'n cael eu colli'n aml.

Ymateb Llywodraeth Cymru

59. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o nodi'r sylwadau cadarnhaol am y canllawiau drafft.
60. Gellir gofyn am unrhyw un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru mewn fformat gwahanol, ond rydym yn ddiolchgar am y sylwadau a gyflwynwyd am y gallu i fanteisio ar fformatau gwahanol. Rydym wedi adolygu'r canllawiau a'u diwygio lle bo angen i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd.
61. Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod llawer o faterion sy'n gysylltiedig â mynediad yn effeithio ar bobl anabl, mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar addasiadau ffisegol; nid yw mathau eraill o addasiadau o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Er hynny, rydyn wedi ceisio cyfeirio'r darllenwyr at ganllawiau eraill sydd ar gael.
62. Rydym o'r farn bod y canllawiau'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng newid adeilad rhestredig er mwyn gwella mynediad i bawb, a sicrhau ar yr un pryd nad yw hynny'n effeithio ar bwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol yr adeilad. Mae'r canllawiau hefyd yn hyrwyddo mynd ati i newid mewn ffordd arloesol ac ystyriol heb beryglu diddordeb arbennig yr adeilad rhestredig.
63. Er bod *Mynediad Hawdd i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* yn cyfeirio'n benodol at adeiladau rhestredig, mae'r canllawiau'n dweud o'r cychwyn cyntaf fod y dulliau gweithredu a ddisgrifir yn gymwys i unrhyw adeilad hanesyddol yng Nghymru.
64. Rydym wedi ystyried llawer o'r awgrymiadau a wnaed o ran cynnwys plant a phobl ifanc o fewn cwmpas y canllawiau.

Atodiad 1 — Rhestr o'r ymatebwyr

Mae pob cofnod yn rhoi rhif yr ymateb i'r ymgynghoriad, enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ymatebodd (oni bai bod cais wedi'i wneud i fod yn ddiennw) a lleoliad yr ymatebydd (os yw'n hysbys).

Rhif	Enw	Lleoliad
001	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Nelson
002	Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent	Glynrhedynog
003	Grŵp Mynediad Arfon	Caernarfon
004	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Doc Penfro
005	Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Caerdydd
006	John Killick	Heb ei roi
007	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Cadwyd yn ôl
008	David Brute	Aberhonddu
009	Yr Eglwys Fethodistaidd	Manceinion
010	Grŵp Mynediad Sir Benfro	Hwlfordd
011	Comisiwn Dylunio Cymru	Caerdydd
012	Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu – Cymru	Pen-y-bont ar Ogwr
013	Amgueddfa Ceredigion	Aberystwyth
014	Dienw	Heb ei roi
015	K. Powell	Merthyr Tudful
016	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent	Abertawe
017	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Wrecsam
018	Cyngor Dinas Casnewydd	Casnewydd
019	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Caerffili
020	Cyngor Sir Ynys Môn	Llangefni
021	Corff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru	Caerdydd
022	Awdurdod cynllunio lleol (ymateb rhannol)	Heb ei roi
023	Dienw	Heb ei roi
024	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Conwy
025	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Aberystwyth
026	Cytûn – Churches Together in Wales	Caerdydd
027	Historic England	Heb ei roi
028	Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol – Cymru	Caerfyrddin
029	Dienw	Heb ei roi
030	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Cadwyd yn ôl
031	Cyngor Sir Caerfyrddin	Llandeilo
032	Yr Ymddiriedolaeth Theatrau	Llundain
033	Awdurdod cynllunio lleol (ymateb rhannol)	Heb ei roi
034	Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar – Cymru	Heb ei roi
035	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Caerdydd
036	Diverse Cymru	Caerdydd
037	Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol	Tisbury, Wiltshire
038	Grŵp Cadwraeth De Cymru	Y Barri
039	Y Sefydliad Tirwedd	Heb ei roi

040	Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru	Caerdydd
041	Comisiynydd Plant Cymru	Heb ei roi
042	Awdurdod cynllunio lleol (ymateb rhannol)	Heb ei roi
043	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Penrhyndeudraeth
044	Cyngor Sir Ceredigion	Aberaeron
045	Gwnaed cais i fod yn ddiennw	Cadwyd yn ôl
046	Cyngor Gwynedd	Pwllheli
047	Age Cymru	Caerdydd
048	Historic Houses	Llundain